Site Stakeholder Group

Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group held on Thursday 9th February 2017 in the Eleth/Eilian Rooms

Present:

Aled M Jones	IACC – Twrcelyn Ward (SSG Chair)
Stuart Law	Wylfa Site Director
Nick Blackburn	ONR
John McGough	ONR
Elfed Jones	Llanbadrig Community Council
Derek Owen	Llanbadrig Community Council
Tom Conway	Wylfa Retirees Association/Cemaes Bay Football Club
Manon Francis	CSYM
Aled Williams	Magnox
Myrddin Owens	Amlwch Town Council
Gareth W Roberts	Amlwch Town Council
Paul Wright	National Resources Wales
Rona Arkle	National Resources Wales
Jonathan Jenkin	Nuclear Decommissioning Authority
Gary Leighton Jones	North Wales Police
Mark Elsworth	Magnox
Enid Jones	Merched y Wawr
Michelle Humphreys	Magnox Communications
Jill Callander	Magnox SSG Secretariat
Mair Jones	Magnox Socio-economic Lead

Apologies:

Richard Foxhall	Horizon
Cllr Richard Hughes	Mechell Community Council
Cllr Richard Owain Jones	IOACC – Twrcelyn Ward
John Griffith,	IOACC – Talybolion Ward
Dylan Williams	Head of Regulation and Economic Development
Yvonne Tatum	Anglesey Federation of Women's Institutes
Lowri Joyce	Horizon
Cllr Jac Jones	Mechell Community Council
Tim Poole	CPRW
Chris Thomas	Food Standards Agency
Gwyn Hughes	Emergency Planning, North Wales Councils
Mike Dodds	Wylfa Retirees Association
Gwyn Roberts	Operational Risk Planning and Resilience Manager, North Wales Fire Service

Also:

Ann Llwyd	Translation – Cymen
Elen Jones	Minutes – Cymen

1. **Welcome and apologies for absence**

Aled M Jones welcomed everyone to the meeting and thanked the members who had attended the extremely worthwhile tour of the site. He thanked Aled and Medwyn Williams for their informative and very interesting tour around the site, as well as Mair, Michelle and Jill.

A warm welcome was extended to Manon Francis, attending on behalf of Dylan Williams.

It was noted that Julia Dobson was no longer a member of Llanbadrig Community Council, and would therefore no longer be representing it on the SSG. She was thanked for her input and attendance over the years.

The Chairman also paid tribute to the late Lady Anglesey, a member of the group, who had sadly passed away in January.

Cllr Myrddin Owens enquired if it would be possible to save paper and have a copy of the Agenda and documents in Welsh or English, rather than having both versions all together in one document. Jill Callander explained that keeping both versions together avoids confusion, taking to account that the various documents are prepared at different times, with items needing to be sent for translation as well. However she informed the group that the versions are available separately on the website and it would be possible to arrange to send a hard copy to any members if this was easier for them. *Action – Jill to provide paper copies to Cllr Owens*

The Chairman noted that they could look into the matter.

2. **Approval of the minutes of the meeting held on 6 October 2016**

The minutes were approved as a true and correct record by Derek Owen and seconded by Elfed Jones.

3. **Matters arising from the previous Minutes**

In the previous meeting an action was placed on the Secretariat to enquire whether it would be possible to arrange a site visit for the SSG: Action now complete. A second action was placed on the Secretariat to request a presentation to the SSG by Radioactive Waste Management relating to the Deep Geological Facility. The Chair also confirmed that Radioactive Waste Management (RWM) would be attending the next SSG meeting on 8 June to give a presentation on Deep Geological Facilities: Action Complete.

4. **SSG Chairman's Report**

The Chair had attended the RWM Meeting in Manchester on 13/14 October 2016, the SSG Chairs' Meeting in London on 21/22 November 2016 and the BEIS Workshop in Manchester on 28 November 2016 regarding the regulation of nuclear sites in the final stages of decommissioning and clean-up.

5. **Wylfa Site Director's Report**

Stuart Law thanked those who had attended the Wylfa Site Tour earlier today.

BBC Cymru had spent a day filming on the site in December for a news item that was broadcast on TV, online and radio on 30 December 2016 – one year after shutdown. This clip was shown to the group.

It had been a frustrating year of challenges for the site, including three major pile cap equipment failures which took thousands of man hours to understand and resolve, and defuelling had not progressed as well as expected. However, despite a challenging year since shutdown, the site had come out of 2016 with its best defueling performance to date. It was now at 30% defueled, with transporters 1 and 2 being fully operational and defuelling taking place via dry store cells 1 and 3.

Stuart Law was pleased to report that there had been no first aid injuries requiring medical treatment on site for a year, which was excellent news.

Colder and damper weather has led to an increase in the rate of decay in the plant. There is a concern about asbestos deteriorating at a faster rate than expected in the turbine hall and to monitor this situation, daily asbestos monitoring was being conducted, but no levels of asbestos had been found to cause concern. The bulk asbestos contract had been accelerated for April/May. Protection of staff was of course of ultimate importance, and extra precautions were being taken to safeguard personnel by restricting access to the turbine hall.

The Active Effluent Discharge Line Project had been completed five months ahead of schedule and £1m under the estimated cost. 70% of the 93m redundant pipeline had been recycled. The cooling water system had been shut down. This will save £2m on annual electricity costs while minimising the site's impact on the environment.

Areas had been identified where fuses were not as indicated on the fuse board. A survey has been undertaken and has revealed discrepancies. 4 were found to be of a higher rating than the capacity of the cable and may not have protected the cable under a fault condition.

Stuart Law described three instances where someone, some time ago, had put fuses over strips of copper. This led to a large amount of work to ensure the correct fuses were used around the site. Further inspections are ongoing.

A map was projected on screen to show the SSG Members the new Detailed Emergency Planning Zone, which has been re-determined and extended. Changes to the shape of the detailed emergency planning zone reflect factors which the ONR judge to be relevant in securing confidence with regard to protecting the public should an emergency occur

This has resulted in changes to the shape of the detailed emergency planning zone from a 1.6km circle to a land area, which is defined by geographical features located approximately 1-2.5km from the centre of the Wylfa site, including the villages of Tregele and Cemaes, and an approximately rectangular seaward area that commences at the points where the land area reaches the coast, and extends north for approximately 1km out to sea. If the area captures part of a village, the whole village has to be included. Stuart Law also noted that all Potassium Iodide tablets had been recovered from the area as these are no longer required.

With regards to the community, the site was very pleased to donate a redundant portakabin to Cylch Meithrin, Cemaes. Amongst other fundraising events, there had been a collection at the site to help provide a wheelchair for a local lady, where over £1000 was raised.

Questions

Tom Conway enquired further about the building deterioration following low temperatures, in places such as the turbine hall, and enquired if the use of space heating would be effective. He also enquired what else would get cold and start to rust, and if this likely to make work more difficult.

Stuart Law replied and advised that the use of space heaters in this type of area would not be effective. When it comes to the rest of the decommissioning work, this would be done on an industrial scale rather than dismantling it piece by piece, he also added that the reactors would of course be treated differently.

Derek Owen again thanked Stuart Law for the opportunity of the Site Tour and commended Mr Law and his staff for the tidiness and cleanliness of the entire Site, which was excellent.

6. Nuclear Decommissioning Authority Update

Jonathan Jenkin presented the latest update.

Over the next few months, the NDA and Employers across the NDA estate are consulting on proposed changes to two final salary pension schemes in the NDA estate: the Combined Nuclear Pension Plan and the Magnox Electric Group of the Electricity Supply Pension Scheme. These proposed changes are part of ongoing government-led reforms to public sector pensions. The Consultation runs until Friday 10 March 2017 and employees are asked to share their views.

The former Energy Minister, Baroness Neville-Rolfe announced in December the appointment of Tom Smith as Chairman of the NDA. He will assume the role from 1 March 2017 from Stephen Henwood, who will step down after 9 years.

2017 got to an excellent start, with Adrian Simper, Strategy and Technology Director, being awarded an OBE for “services to the UK nuclear industry in Japan.”

Celebrations had been taking place at the Harwell site as the former research centre, birthplace of the UK nuclear industry, reaches 70. In 1946, just as Britain was recovering from the end of World War Two, pioneering scientists at Harwell introduced the UK to civil nuclear power. In total, 14 experimental reactors were built on the site, including the UK’s first fast reactor.

Radioactive sludge had been transferred out of the world’s oldest nuclear fuel pond for the very first time, marking a historic achievement in the decades-long programme to clean up Sellafield. The project is being delivered 10 years ahead of schedule and for half the expected cost.

Organisations can apply for funding to develop innovative technologies for nuclear decommissioning. The NDA, Sellafield Ltd and Innovate UK are to invest up to £3 million in projects that will integrate and demonstrate flexible innovative technologies.

The NDA have launched a consultation on the Draft Business Plan from 2017 to 2020, which will be open until 3 February 2017.

The NDA welcomed the launch of the Nuclear Skills Strategic Plan to ensure UK nuclear employers, including the supply chain, can recruit skilled people at the required rate to meet the sector’s ambitious forward programme.

NDA Chief Executive, John Clarke, has been given a lifetime achievement award for services to the nuclear industry.

More than 1,500 visitors attended the sixth annual NDA Estate Supply Chain Event, held at EventCity in Manchester, making it the busiest and most successful to date.

Divers had been working under water to cut up and retrieve items from the spent fuel ponds at Dungeness. Wearing protective suits, with additional shielding from the water, the specialised teams were able to work close to skips and other equipment as well as gain access to awkward areas. Divers, more widely used in the US nuclear industry, can be faster and more effective than the conventional approach where remote equipment is deployed to hoist items from the water, with the potential for airborne contamination.

By early next year, work will be complete on isolating Winfrith's Steam Generating Heavy Water Reactor from all the plant and equipment that allowed it to operate. The complexity of the project has meant months of preparation, including the creation of full-scale mock-ups of the plant.

Questions
Tom Conway enquired whether the divers used hoses, and what is the radioactive exposure per dive?
Stuart Law explained that any radioactive exposure had to be within stringent Company limits and was closely monitored.

Tom Conway noted that not a lot is heard about the long term prognosis. Is it the intention to complete the reprocessing of Magnox fuel before Sellafield closes?
Stuart Law replied that to the best of his knowledge, he believed that it was the intent is to reprocess all fuel.

Tom Conway enquired about THORP and oxide fuel, considering that THORP is due to close in 2018.
Jonathan Jenkin noted that it has been announced that THORPE will come to an end, but understood there will be contracts put in place for the storage. *Action – Jonathan Jenkin to provide a copy of the Magnox Operating Plan (MOP) via the secretariat to Tom Conway.*

7. Office for Nuclear Regulation Update

The ONR report was presented by Nick Blackburn.

There was not a huge amount to report on in the last quarter. The ONR was interested in progress on defueling, which of course had been plagued by breakdowns.

A lot of interest had been taken in the Lighting and Small Power fuse boards, as mentioned earlier by Stuart Law. Following the non-routine matter relating to incorrectly rated fuses, Magnox Ltd committed to undertake a comprehensive inspection of all Lighting and Small Power Fuse boards. However the work had fallen behind schedule which led to challenging discussions from both sides, with mutual agreement reached.

In the next quarter, the ONR would be taking an interest in the rate of defueling to ensure that no other issues arise form that work.

8. Natural Resources Wales Update

The report was presented by Paul Wright.

All discharges remain within the set limits. NRW had visited the site three times since the last meeting. This included a meeting to discuss the potential reuse of various areas of the existing site by Horizon.

Magnox are commissioning a new Rados drum monitoring system to enable them to identify waste which is suitable for disposal as Very Low Level Waste, and there has been good progress made in this regard.

Discussions had commenced regarding the scope of work Magnox plan to undertake during Care and Maintenance preparations at Wylfa, and the implications for waste management. This will be a significant area of interest in the future.

Horizon had indicated that they may wish to re-use a number of areas on the existing Wylfa site during construction and/or operation of their proposed Wylfa Newydd power station. Advice had been provided to Magnox on the environmental permitting implications.

Questions
Myrddin Owens asked for an explanation regarding the use of the word 'generally' in the report (Recent results from the programme are generally in line with previous periods and show no cause for concern).
Paul Wright replied that this was just a poor choice of words and all levels were correct, with no change.

1539 Hrs Cllr Robert W Jones and Myrddin Owens left the meeting.

9. Wylfa Waste Manager Update

The report was presented by Aled Williams.

After shutdown, a considerable amount of work had been done to reduce hazards. 124m^3 of intermediate level waste had been removed from the site, and over 1600 tonnes of non-active waste, such as acid. CO^2 had been removed as well.

The non-active waste vendor had changed, to a local company in Bryngwran. This is a very modern facility which allows all of the non-active waste sent there to be recycled or used to produce energy by incineration. This is a very positive move for the site and the environment.

The Intermediate Level Waste which has been stored on site over decades poses a few challenges. However, good progress has been made with regards to sampling, to allow detailed characterisation.

Other legacy waste includes gas pipework which has again been stored for some time. A company has been employed to downsize them, and sampling is taking place to allow analysis and characterisation.

The oil from gas circulators has now been characterised and this is confirmed as non-radioactive. The removal of these will be in the next phase of the Post operational clean out (POCO).

The Dry Store Cell 4 project is close to starting. Improvements have been made to non-active waste facilities and minor modifications have led to better segregation and containment of waste.

A mini project has just started to clear out areas where redundant equipment in the reactor building has been identified. If this proves successful, it will be moved to another area.

There were no questions, and the Chairman again thanked Aled for the informative tour of the site.

10. Socio Economic Scheme Update

Mair Jones gave a report on the Socio Economic Scheme, and went through a few of the funding requests that had been awarded under the 'Good Neighbour' scheme. These included the Holyhead Cycling Club, local football clubs and the Amlwch Christmas lights.

An article had appeared in the Holyhead and Anglesey Mail recently highlighting the good work.

There is £6K available to each Magnox site under the Magnox Socio Economic Good Neighbour Scheme, and the SSG were keen to make sure that requests are submitted to ensure full use is made of the allocated amount. Mair confirmed that £7669 had been funded to the local Wylfa communities.

Questions
Tom Conway asked for justification of the £200,000 funding awarded to Morlais for a grid connection.

It was explained that without this support Morlais would not be able to secure further external funding. Jonathan Jenkin noted that the NDA had looked hard at this application, but recognised that it was likely there would be a lot of external funding from sources such as the EU and the private sector, but that this investment was needed to start things off. Stuart Law stated that it was a case of trying to create jobs and support in the locality and provide a positive legacy.

11. Open Forum Question and Answer Session

Derek Owen raised a question with Jonathan Jenkin. He noted that the community of Llanbadrig was losing its Sport and Social Club and Tregele, their nearest neighbour, had no base they could use either. Therefore, would the NDA able to contribute towards building a village hall for Tregele, as a legacy? Jonathan responded explaining that there were a number of questions and indeed issues relating to this and that he would speak with Derek outside of the Meeting so that he could fully understand the request.

Tom Conway enquired if it would be possible to run the gas turbine privately. Stuart Law replied that he intended to take gas turbines out of system, but he had no intention of using them to produce electricity.

Tom Conway commended the Chair on his opening remarks praising Lady Anglesey and added he believed Lady Anglesey was due to receive significant commendation but she was neglected in the press as far as the nuclear industry was concerned. The obituaries totally excluded the significant part she played in the British nuclear power programme. Lady Anglesey was the Vice Chairman of the 6th Royal Commission into the study of Radioactive Waste along with Lord Brian Flowers, the eminent physicist from Imperial College. Tom advised the Group that the Royal Commission made many recommendations not many of which have been implemented by successive Governments. One of which was a unanimous recommendation from the whole Commission was that there should be no British nuclear power programme until the deep geological storage facility was available. The Chair thanked Tom and added that Lady Anglesey was also Chairman of the British Museums Committee.

12. Any Other Business

Michelle Humphreys gave a short presentation on the 2016 External Stakeholder Survey recently undertaken.

173 responses had been received – 45% from SSG/LCLC Members. 75% said they felt "positive" or "fairly positive" about their local site and according to the feedback the sites were well managed and safely run. 87% said Magnox communicated "very well" or "fairly well" with stakeholders about its activities and 80% of respondents said they thought their local SSG/LCLC was "very effective" or "fairly effective".

Looking at the Wales regional results, 26 responses had been received – 62% from SSG members. 83% said they felt "positive" or "fairly positive" about their local site. 89% considered their local site "very good" or "good" at donating money to local groups/events, and 77% of respondents said they thought their local SSG was "very effective" or "fairly effective".

The meeting came to an end at 1615 Hrs.

The date of the next meeting is 8 June 2017.

Site Stakeholder Group

Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa
a gynhaliwyd ar ddydd Iau 9 Chwefror 2017 yn Ystafelloedd Eleth/Eilian

Yn bresennol:

Aled M Jones	CSYM – Ward Twrcelyn (Cadeirydd SSG)
Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle Wylfa
Nick Blackburn	ONR
John McGough	ONR
Elfed Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Derek Owen	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Tom Conway	Cymdeithas Ymddeoledigion Wylfa/Clwb Pêl-droed Bae Cemaes
Manon Francis	CSYM
Aled Williams	Magnox
Myrddin Owens	Cyngor Tref Amlwch
Gareth W Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Paul Wright	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rona Arkle	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jonathan Jenkin	Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear
Gary Leighton Jones	Heddlu Gogledd Cymru
Mark Elsworth	Magnox
Enid Jones	Merched y Wawr
Michelle Humphreys	Cyfathrebu Magnox
Jill Callander	Ysgrifenyddiaeth Magnox SSG
Mair Jones	Arweinydd Economaidd Gymdeithasol Magnox

Ymddiheuriadau:

Richard Foxhall	Horizon
Cyng. Richard Hughes	Cyngor Cymunedol Mechell
Cyng. Richard Owain Jones	CSYM - Ward Twrcelyn
John Griffith,	CSYM - Ward Talybolion
Dylan Williams	Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd
Yvonne Tatum	Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ynys Môn
Lowri Joyce	Horizon
Cyng. Jac Jones	Cyngor Cymunedol Mechell
Tim Poole	CPRW
Chris Thomas	Asiantaeth Safonau Bwyd
Gwyn Hughes	Cynllunio Argyfwng, Cynghorau Gogledd Cymru
Mike Dodds	Cymdeithas Ymddeoledigion Wylfa
Gwyn Roberts	Rheolwr Cynllunio Risg Gweithredol a Chydnerthedd, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru

Hefyd:

Ann Llwyd	Cyfieithu – Cymen
Elen Jones	Cofnodion – Cymen

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

Bu i Aled M Jones groesawu pawb i'r cyfarfod a diolch i'r aelodau oedd wedi bod ar y daith werth chweil o gwmpas y safle. Diolchodd i Aled a Medwyn Williams am eu taith llawn gwybodaeth a diddorol iawn o gwmpas y safle, ac i Mair, Michelle a Jill hefyd.

Estynnwyd croeso cynnes i Manon Francis, oedd yn mynychu ar ran Dylan Williams.

Nodwyd nad oedd Julia Dobson belach yn aelod o Gyngor Cymuned Llanbadrig, ac na fyddai felly yn ei gynrychioli ar y SSG. Diolchwyd iddi am ei mewnbwn a'i phresenoldeb dros y blynyddoedd.

Bu i'r Cadeirydd hefyd dalu teyrnged i'r diweddar Fonesig Anglesey, aelod o'r grŵp, a fu farw ym mis Ionawr.

Gofynnodd y Cynghorydd Myrddin Owens a fyddai'n bosibl arbed papur a chael copi o'r Agenda naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg, yn hytrach na chael y ddwy fersiwn gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Eglurodd Jill Callander bod cadw'r ddwy fersiwn gyda'i gilydd yn osgoi dryswch, o ystyried bod yr amrywiol ddogfennau'n cael eu paratoi ar wahanol adegau, a bod angen anfon eitemau i'w cyfieithu hefyd. Fodd bynnag, hysbysodd y grŵp bod y fersiynau ar gael ar wahân ar y wefan ac y byddai'n bosibl trefnu i anfon copi i unrhyw aelod petai hynny'n haws iddynt. *Gweithredu - Jill i ddarparu copïau papur i'r Cynghorydd Owens*

Dywedodd y Cadeirydd y gallent edrych i mewn i'r mater.

2. **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2016**

Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai gwir a chywir gan Derek Owen ac eiliwyd hynny gan Elfed Jones.

3. **Materion yn Codi o'r Cofnodion blaenorol**

Yn y cyfarfod blaenorol gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth holi a fyddai'n bosibl trefnu ymweliad safle ar gyfer yr SSG: Cyflawnwyd hynny. Gofynnwyd hefyd i'r Ysgrifenyddiaeth ofyn i Reoli Gwastraff Ymbelydrol roi cyflwyniad i'r SSG mewn perthynas â'r Cyfleuster Daearegol Dwfn. Bu i'r cadeirydd hefyd gadarnhau y byddai Rheoli Gwastraff Ymbelydrol (RWM) yn mynychu cyfarfod nesaf yr SSG ar 8 Mehefin er mwyn rhoi cyflwyniad ar Gyfleusterau Daearegol Dwfn: Cyflawnwyd hynny.

4. **Adroddiad Cadeirydd SSG**

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu Cyfarfod y RWM ym Manceinion ar 13/14 Hydref 2016, Cyfarfod Cadeiryddion SSG yn Llundain ar 21/22 Tachwedd 2016, a Gweithdy BEIS ym Manceinion ar 28 Tachwedd 2016, mewn perthynas â rheoleiddio safleoedd niwclear yn ystod camau terfynol dadgomisiynu a glanhau.

5. **Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa**

Bu i Stuart Law ddiolch i'r rhai oedd wedi mynychu Taith Safle Wylfa yn gynharach heddiw.

Roedd BBC Cymru wedi treulio'r dydd yn ffilmio ar y safle ym mis Rhagfyr ar gyfer eitem newyddion a ddarlledwyd ar y teledu, ar-lein ac ar radio ar 30 Rhagfyr 2016 - un mlynedd ar ôl diffodd y safle. Dangoswyd y clip i'r grŵp

Bu'n flwyddyn o heriau rhwystredig i'r safle, yn cynnwys tri methiant mewn perthynas ag offer capiau pentyrrau olygodd y treuliwyd miloedd o oriau gwaith yn ceisio ei ddeall a'i ddatrys, ac nid oedd y broses o wagio tanwydd wedi mynd rhagddo cystal â'r disgwyl. Fodd bynnag, er gwaethaf blwyddyn heriol ers diffodd y safle, roedd y safle wedi gorffen 2016 gyda'r perfformiad gwagio tanwydd gorau hyd yma. Erbyn hyn mae 30% o'r tanwydd wedi ei wagio, ac mae cludwyr 1 a 2 yn gwbl weithredol a gwagio tanwydd yn cael ei wneud drwy ddefnyddio celloedd storio sych 1 a 3.

Roedd Stuart Law yn falch o adrodd na fu unrhyw anafiadau cymorth cyntaf oedd angen triniaeth feddygol ar y safle yn ystod y flwyddyn, ac roedd hynny'n newyddion rhagorol.

Mae tywydd oerach a gwlypach wedi arwain at gynnydd yng nghyfradd y dirywiad ar y safle. Mae'n achos pryder bod asbestos yn dirywio yn gyflymach na'r disgwyl yn y neuadd dyrbin, ac er mwyn monitro'r sefyllfa hon, roedd asbestos yn cael ei fonitro'n ddyddiol, ond ni chanfuwyd unrhyw lefelau asbestos fyddai'n achosi pryder. Roedd y contract asbestos swp wedi cael ei symud i Ebrill/Mai. Wrth gwrs, mae gwarchod staff yn bwysicach na dim, ac roedd rhagofalon ychwanegol yn cael eu cymryd er mwyn diogelu personél drwy gyfyngu ar fynediad i'r neuadd dyrbin.

Roedd y Prosiect Llinell Gollwng Elifiant Actif wedi cael ei gwblhau bum mis yn gynnar ac am £1m yn llai na'r gost a amcangyfrifwyd. Roedd 70% o'r biblinell segur 93m wedi cael ei hailgylchu. Roedd y system dŵr oeri wedi cael ei diffodd. Bydd hynny yn arbed £2m ar gostau trydan blynyddol tra'n lleihau effaith y safle ar yr amgylchedd.

Clustnodwyd mannau ble nad oedd ffiwsiau wedi eu nodi'n gywir ar y bwrdd ffiwsiau. Cynhaliwyd arolwg ac mae hynny wedi datguddio anghysonderau. Canfuwyd bod gan 4 gapasiti uwch na chapasiti'r cebl ac efallai na fyddent wedi amddiffyn y cebl mewn achos o ddiffyg.

Bu i Stuart Law ddisgrifio tri achos pan fu i rywun, beth amser yn ôl, osod ffiwsiau dros stribedi o gopr. Arweiniodd hynny at lawer iawn o waith er mwyn sicrhau bod y ffiwsiau cywir yn cael eu defnyddio o gwmpas y safle. Mae mwy o archwiliadau yn mynd rhagddynt.

Tafluniwyd map ar sgrin er mwyn dangos i Aelodau'r SSG y Parth Cynllunio Argyfwng Manwl, sydd wedi cael ailbennu a'i ymestyn. Mae newidiadau i siâp y parth cynllunio argyfwng manwl yn adlewyrchu ffactorau y mae'r ONR yn ystyried sy'n berthnasol o ran sicrhau hyder mewn perthynas â gwarchod y cyhoedd petai argyfwng yn digwydd.

Mae hynny wedi arwain at newidiadau i siâp y parth cynllunio argyfwng manwl, o gylch 1.6km i arwynebedd tir sy'n cael ei ddiffinio gan nodweddion daearyddol sydd tua 1-2.5km o ganol safle Wylfa, yn cynnwys pentrefi Tregele a Chemaes, ac ardal bron yn betryal tua'r môr sy'n dechrau ble mae'r tir yn cyrraedd y glannau, ac yn ymestyn tua'r gogledd am tua 1km i'r môr. Os yw'r ardal yn cynnwys rhan o bentref, mae'n rhaid cynnwys y pentref cyfan. Nododd Stuart Law hefyd bod yr holl dabledi Potasiwm Ïodid wedi cael eu cymryd o'r ardal oherwydd nad oes eu hangen erbyn hyn.

Mewn perthynas â'r gymuned, roedd y safle yn falch iawn o roi *portakabin* segur i Gylch Meithrin Cemaes. Ymysg digwyddiadau codi arian eraill, gwnaethpwyd casgliad ar y safle er mwyn helpu i ddarparu cadair olwyn i ferch leol, a chodwyd dros £1000.

Cwestiynau

Holodd Tom Conway ymhellach ynghylch dirywiad yr adeilad yn dilyn tymheredd isel, mewn mannau megis y neuadd dyrbin, a holodd a fyddai defnyddio system wresogi gofod yn effeithiol. Holodd hefyd beth arall fyddai'n oeri ac yn dechrau rhydu, ac a fyddai hynny'n debygol o wneud y gwaith yn anoddach.

Ymatebodd Stuart Law a chynghorodd na fyddai defnyddio gwresogyddion gofod yn y math hwn o le yn effeithiol. Mewn perthynas â gweddill y gwaith dadgomisiynu, byddai hynny'n cael ei wneud ar raddfa ddiwydiannol yn hytrach na'i ddymchwel fesul darn. Ychwanegodd hefyd y byddai'r adweithyddion wrth gwrs yn cael eu trin yn wahanol.

Bu i Derek Owen ddiolch eto i Stuart Law am y cyfle i gael Taith o gwmpas y Safle a chanmolodd Mr Law a'i staff am daclusrwydd a glendid yr holl safle, oedd yn rhagorol.

6. Diweddariad yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear

Bu i Jonathan Jenkin gyflwyno'r diweddariad mwyaf diweddar.

Yn ystod y misoedd nesaf bydd yr NDA a Chyflogwyr ar draws ystâd yr NDA yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i ddau gynllun pensiwn cyflog terfynol sy'n rhan o ystâd yr NDA: y Cynllun Pensiwn Niwclear Cyfun a Chynllun Pensiwn Magnox Electric Group o'r Cyflenwad Trydan. Mae'r newidiadau arfaethedig yma yn rhan o ddiwygiadau parhaus dan arweiniad y llywodraeth i bensiynau'r sector cyhoeddus. Bydd yr Ymgynghoriad yn cael ei gynnal hyd at ddydd Gwener 10 Mawrth, a gofynnir i gyflogeion rannu eu safbwyntiau.

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y cyn Weinidog dros Egni, y Farwnes Neville-Rolfe, benodiad Tom Smith fel Cadeirydd yr NDA. Bydd yn dechrau yn ei rôl o 1 Mawrth 2017 gan olynu Stephen Henwood, fydd yn rhoi'r gorau iddi ar ôl 9 mlynedd.

Cychwynnodd 2017 yn rhagorol, gydag Adrian Simper, y Cyfarwyddwr Strategaeth a Thechnoleg, yn derbyn OBE am "wasanaeth i ddiwydiant niwclear y DU yn Japan."

Roedd dathliadau'n cael eu cynnal ar safle Harwell, wrth i'r cyn ganolfan ymchwil, man geni diwydiant niwclear y DU, gyrraedd 70 oed. Ym 1946, fel yr oedd Prydain yn dod at ei hun ar ôl yr Ail Ryfel Byd, bu i wyddonwyr arloesol yn Harwell gyflwyno'r DU i bŵer niwclear sifil. Adeiladwyd cyfanswm o 14 o adweithyddion arbrofol ar y safle, yn cynnwys adweithydd cyflym cyntaf y DU.

Mae llaid ymbelydrol wedi cael ei gludo o bwll tanwydd niwclear hynaf y byd am y tro cyntaf, gan nodi cyflawniad hanesyddol yn hanes y rhaglen i lanhau Sellafield sydd wedi mynd rhagddi ers degawdau. Mae'r prosiect yn cael ei gyflawni 10 mlynedd yn gynnar ac am hanner y gost ddisgwyliedig.

Gall sefydliadau wneud cais am gyllid i ddatblygu technolegau arloesol ar gyfer dadgomisiynu niwclear. Bydd yr NDA, Sellafield Ltd ac Innovate UK yn buddsoddi hyd at £3 miliwn mewn prosiectau fydd yn integreiddio ac arddangos technolegau arloesol hyblyg.

Mae'r NDA wedi lansio ymgynghoriad ar y Cynllun Busnes Drafft o 2017 i 2020, fydd yn agored tan 3 Chwefror 2017.

Bu i'r NDA groesawu lansio'r Cynllun Strategol Sgiliau Niwclear er mwyn sicrhau y gall cyflogwyr niwclear y DU, yn cynnwys y gadwyn gyflenwi, recriwtio digon o bobl sgiliedig er mwyn bodloni rhaglen uchelgeisiol y sector ar gyfer y dyfodol.

Mae Prif Weithredwr NDA, John Clarke, wedi derbyn gwobr cyflawniad oes am wasanaeth i'r diwydiant niwclear.

Bu i dros 1,500 o ymwelwyr fynychu'r chweched Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi Ystâd yr NDA blynyddol, a gynhaliwyd yn EventCity ym Manceinion, oedd yn golygu mai hon oedd yr un brysuraf a mwyaf llwyddiannus hyd yma.

Mae deifwyr wedi bod yn gweithio o dan ddŵr er mwyn torri ac adfer eitemau o'r pyllau gweddillion tanwydd yn Dungeness. Gan wisgo siwtiau gwarchodol, a gydag amddiffyniad ychwanegol gan y dŵr, roedd y timau arbenigol yn gallu gweithio'n agos at sgipiau ac offer arall yn ogystal â chael mynediad i fannau lletchwith. Gall deifwyr, a ddefnyddir yn amlach yn y diwydiant niwclear yn yr UDA, fod yn gyflymach a mwy effeithiol na defnyddio'r dull confensiynol pan fo offer a reolir o bell yn cael ei ddefnyddio i godi eitemau o'r dŵr, sy'n golygu bod yna bosibilrwydd o greu llygredd yn yr awyr.

Erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf, bydd y gwaith o ynysu Adweithydd Dŵr Trwm Cynhyrchu Stêm Winfrith oddi wrth yr holl offer oedd yn ei alluogi i weithredu wedi ei gwblhau. Mae cymhlethdod y prosiect wedi golygu misoedd o baratoi, yn cynnwys creu ffug fodelau maint llawn o'r cyfarpar.

Cwestiynau
Holodd Tom Conway a oedd y deifwyr wedi defnyddio pibellau, a faint yw'r cyswllt ymbelydrol am bob deif?
Eglurodd Stuart Law bod yn rhaid i unrhyw gyswllt ymbelydrol fod o fewn ffiniau caeth y Cwmni a bod hynny'n cael ei fonitro'n ofalus.

Nododd Tom Conway nad oes llawer i'w glywed am y prognosis hirdymor. Ai'r bwriad yw cwblhau ailbrosesu tanwydd Magnox cyn cau Sellafield?
Atebodd Stuart Law, cyn belled ag yr oedd ef yn gwybod, ei fod yn credu mai'r bwriad yw ailbrosesu'r holl danwydd.

Holodd Tom Conway am THORP a thanwydd ocsid, o ystyried y bydd THORP yn cau yn 2018. Nododd Jonathan Jenkin y cyhoeddwyd y bydd THORP yn dod i ben, ond ei fod yn deall y bydd contractau yn cael eu sefydlu ar gyfer storio. *Gweithredu - Jonathan Jenkin i ddarparu copi o Gynllun Gweithredu Magnox (MOP) drwy'r ysgrifenyddiaeth i Tom Conway.*

7. Diweddariad Swyddfa'r Rheoleiddiwr Niwclear

Cyflwynwyd adroddiad yr ONR gan Nick Blackburn.

Nid oedd yna lawer iawn i adrodd amdano yn ystod y chwarter diweddaraf. Roedd gan yr ONR ddiddordeb yn y cynnydd o ran gwagio tanwydd, ac roedd hynny wrth gwrs wedi bod yn destun diffygion niferus.

Dangoswyd llawer o ddiddordeb yn y byrddau ffiwsiau Goleuo a Phŵer Bach, fel y soniwyd yn gynharach gan Stuart Law. Yn dilyn yr achos anarferol mewn perthynas â defnyddio ffiwsiau anghywir, ymrwymodd Magnox i gynnal archwiliad cynhwysfawr o'r holl fyrddau ffiwsiau Goleuo a Phŵer Bach. Fodd bynnag, nid oedd y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r amserlen, ac arweiniodd hynny ar drafodaethau heriol o'r ddwy ochr, a daethpwyd i gytundeb.

Yn ystod y chwarter nesaf, bydd yr ONR yn dangos diddordeb yng nghyfradd y tanwydd sy'n cael ei wagio er mwyn sicrhau na fydd unrhyw broblemau eraill yn deillio o'r gwaith hwnnw.

8. Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Paul Wright.

Mae'r holl ollyngiadau yn parhau i fod o fewn y cyfyngiadau penodedig. Roedd CNC wedi ymweld â'r safle deirgwaith ers y cyfarfod diwethaf. Roedd hynny yn cynnwys cyfarfod i drafod ailddefnyddio amrywiol ardaloedd y safle presennol o bosibl gan Horizon.

Mae Magnox yn comisiynu system monitro drwm Rados er mwyn eu galluogi i ganfod gwastraff sy'n addas i'w waredu fel Gwastraff Lefel Isel Iawn, a gwnaethpwyd cynnydd da mewn perthynas â hynny.

Roedd trafodaethau wedi cychwyn mewn perthynas â chwmpas y gwaith y mae Magnox yn bwriadu ei wneud yn ystod y paratoadau Gofal a Chynnal yn Wylfa, a'r goblygiadau i reoli gwastraff. Bydd hwn yn faes o ddiddordeb arwyddocaol yn y dyfodol.

Mae Horizon wedi dweud y byddant efallai yn dymuno ailddefnyddio nifer o ardaloedd ar y safle Wylfa presennol yn ystod y gwaith adeiladu a/neu weithredu eu gorsaf bŵer Wylfa Newydd arfaethedig. Rhoddwyd cyngor i Magnox ynglŷn â'r goblygiadau amgylcheddol.

Cwestiynau
Gofynnodd Myrddin Owens am eglurhad ynghylch y defnydd o'r gair 'cyffredinol' yn yr adroddiad (Mae canlyniadau diweddar o'r rhaglen yn gyffredinol debyg i gyfnodau blaenorol ac nid ydynt yn dangos unrhyw achos i bryderu).
Atebodd Paul Wright mai dewis gwael o air oedd hynny yn unig, a bod yr holl lefelau yn gywir, ac nad oedd dim newid.

1539 o'r gloch gadawodd y Cynghorydd Robert W Jones a Myrddin Owens y cyfarfod.

9. Diweddariad Rheolwr Gwastraff Wylfa

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aled Williams.

Ar ôl diffodd y safle, roedd gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i leihau peryglon. Roedd 124m^3 o wastraff lefel canolig wedi ei dynnu o'r safle, a dros 1600 tunnell o wastraff nad yw'n ymbelydrol, megis asid. Roedd CO^2 wedi cael ei waredu hefyd.

Roedd y cwmni trin gwastraff nad yw'n ymbelydrol wedi newid, i gwmni lleol ym Mryngwran. Mae hwn yn gyfleuster modern iawn sy'n galluogi i'r holl wastraff nad yw'n ymbelydrol a

anfonir yno i gael ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio er mwyn cynhyrchu ynni drwy losgi. Mae hwn yn gam positif i'r safle a'r amgylchedd.

Mae'r Gwastraff Lefel Canolig sydd wedi cael ei storio ar y safle ers degawdau yn achosi ychydig o heriau. Fodd bynnag, gwnaethpwyd cynnydd da mewn perthynas â samplo, er mwyn gallu pennu nodweddion manwl.

Mae gwastraff gwaddol arall yn cynnwys pibellau nwy sydd hefyd wedi'u storio ers peth amser. Mae cwmni wedi cael ei gyflogi i'w cwtogi, ac mae samplo yn digwydd er mwyn gallu dadansoddi a phennu nodweddion.

Erbyn hyn pennwyd nodweddion olew o gylchredwyr nwy, a chadarnhawyd nad yw'n ymbelydrol. Bydd gwaredu'r rhain yn perthyn i gam nesaf y gwaith glanhau ôl weithredol (POCO).

Mae prosiect Cell 4 Storfa Sych yn agos at ddechrau. Gwnaethpwyd gwelliannau i gyfleusterau gwastraff nad yw'n ymbelydrol, ac mae mân addasiadau wedi arwain at wahanu a chyfyngiant gwastraff.

Cychwynnwyd ar brosiect bach i glirio ardaloedd ble mae offer segur yn adeilad yr adweithydd wedi cael eu clustnodi. Os bydd hyn yn llwyddiannus, bydd yn cael ei symud i ardal arall.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau, a diolchodd y Cadeirydd i Aled am y daith o gwmpas y safle oedd yn llawn gwybodaeth.

10. Diweddariad y Cynllun Economaidd Gymdeithasol

Rhoddodd Mair Jones adroddiad ar y Cynllun Economaidd Gymdeithasol, ac egluro ychydig am y ceisiadau am arian a ddyfarnwyd o dan y cynllun 'Cymydog Da'. Roedd y rhain yn cynnwys Clwb Seiclo Caergybi, clybiau pêl-droed lleol a goleuadau Nadolig Amlwch.

Ymddangosodd erthygl yn yr Holyhead and Anglesey Mail yn ddiweddar yn rhoi sylw i'r gwaith da.

Mae yna £6k ar gael i bob safle Magnox o dan Gynllun Economaidd Gymdeithasol Cymydog Da Magnox, ac roedd yr SSG yn awyddus i sicrhau bod ceisiadau yn cael eu cyflyno er mwyn sicrhau bod y swm a ddyrennir yn cael ei ddefnyddio'n llawn. Cadarnhaodd Mair bod £7669 wedi cael ei roi i gymunedau lleol Wylfa.

Cwestiynau

Gofynnodd Tom Conway am gyfiawnhad o'r £200,000 a ddyfarnwyd i Forlais ar gyfer cysylltiad grid.

Heb y cymorth hwn eglurwyd na fyddai Morlais yn gallu sicrhau mwy o gyllid allanol. Nododd Jonathan Jenkin bod yr NDA wedi ystyried y cais hwn yn drylwyr, ond roedd yn cydnabod y byddai'n debygol y byddid yn derbyn llawer o gyllid allanol o ffynonellau megis yr UE a'r sector preifat, ond bod angen y buddsoddiad hwn fel man cychwyn. Nododd Stuart Law bod hyn yn achos o geisio creu swyddi a chefnogaeth yn yr ardal leol a darparu gwaddol cadarnhaol.

11. Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored

Gofynnodd Derek Owen gwestiwn i Jonathan Jenkin. Nododd bod cymuned Llanbadrig yn colli ei Glwb Chwaraeon a Hamdden ac nad oedd gan Dregele, y pentref agosaf ati, ddim canolfan a ellid ei defnyddio chwaith. Felly, a fyddai'r NDA yn gallu cyfrannu at adeiladu neuadd bentref yn Nhregele, fel gwaddol? Ymatebodd Jonathan gan egluro bod yna nifer o gwestiynau a materion yn bodoli mewn perthynas â hyn, ac y byddai yn siarad â Derek y tu allan i'r cyfarfod hwn fel y gallai ddeall y cais yn llawn.

Holodd Tom Conway a fyddai'n bosibl rhedeg y tyrbin nwy yn breifat. Atebodd Stuart Law ei fod yn bwriadu tynnu tyrbinau nwy allan o'r system, ond nad oedd ganddo unrhyw fwriad o'u defnyddio i gynhyrchu trydan.

Bu i Tom Conway gymeradwyo'r Cadeirydd ar ei sylwadau agoriadol wrth roi teyrnged i'r Fonesig Anglesey, ac ychwanegodd bod cymeradwyaeth sylweddol yn ddyledus i'r Fonesig Anglesey ond ei bod yn cael ei hanwybyddu yn y wasg mewn perthynas â'r diwydiant niwclear. Bu i'r ysgrifau coffa anwybyddu'n llwyr ei chyfraniad sylweddol i raglen ynni niwclear Prydain. Roedd Y Fonesig Anglesey yn Is-gadeirydd y 6ed Comisiwn Brenhinol i'r astudiaeth o Wastraff Niwclear ynghyd â'r Arglwydd Brian Flowers, y ffisegwr enwog o'r Coleg Imperialaidd. Bu i Tom ddweud wrth y Grŵp bod y Comisiwn Brenhinol wedi gwneud nifer o argymhellion, ac na fu i gyfres o Lywodraethau eu rhoi ar waith. Un ohonynt oedd argymhelliad unfrydol gan y Comisiwn cyfan na ddylid sefydlu rhaglen bŵer niwclear Brydeinig nes bod y cyfleuster storio daearegol dwfn ar gael. Bu i'r Cadeirydd ddiolch i Tom ac ychwanegu y bu'r Fonesig Anglesey hefyd yn gadeirydd Pwyllgor Amgueddfeydd Prydain.

12. Unrhyw Fater Arall

Bu i Michelle Humphreys roi cyflwyniad byr ar Arolwg Rhanddeiliaid Allanol 2016 a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Derbyniwyd 173 o ymatebion - 45% gan Aelodau SSG/LCLC. Dywedodd 75% eu bod yn teimlo'n "bositif" neu'n "eithaf positif" am eu safle lleol, ac yn ôl yr adborth roedd y safleoedd yn cael eu rheoli'n dda ac yn cael eu rhedeg yn ddiogel. Dywedodd 87% bod Magnox yn cyfathrebu'n "dda iawn" neu'n "eithaf da" gyda rhanddeiliaid mewn perthynas â'i weithgareddau, a dywedodd 80% eu bod yn credu bod eu SSG/LCLC lleol yn "effeithiol iawn" neu'n "eithaf effeithiol".

Gan edrych ar ganlyniadau rhanbarthol Cymru, derbyniwyd 26 o ymatebion - 62% gan aelodau SSG. Dywedodd 83% eu bod yn teimlo'n "bositif" neu'n "eithaf positif" am eu safle lleol. Roedd 89% yn credu bod eu safle lleol yn "dda iawn" neu'n "dda" am roi arian i grwpiau/digwyddiadau lleol, a dywedodd 77% eu bod yn credu bod eu SSG lleol yn "effeithiol iawn" neu'n "eithaf effeithiol".

Daeth y cyfarfod i ben am 1615 o'r gloch.

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 8 Mehefin 2017.